

---

ITIA4003C

Dydd Iau y 13eg o Ionawr  
2022

Darlith 2

*Ysgrifennu Disgrifiadol*

# Nod y ddarlith

- Adolygu'r treigladd meddal.
- Ansoddeiriau
- Cymharu ansoddeiriau.

# Y Cwm

---



©Cory Thoman \* illustrationsOf.com/94618

Edrychwch ar eiriau'r cân y Cwm gan Huw  
Chiswell – ble mae'r treigladau?

Ydych chi'n gallu dweud pam eu bod nhw wedi  
treiglo?

cyfoethog

hen

doniol

mawr

# Ansoddeiriau

GEIRIAU SY’N DISGRIFIO

---

pwysig

melyn  
melyn

prydfert

crwn

ise

prif

tawel

# Treiglo

Mae ansoddair yn treiglo'n **feddal** ar ôl

**enw benywaidd unigol:**

merch **dda**

cath **fawr**

neges **bwysig**

drama **ddiddorol**    ysgol **wych**

noson **dywyll** wyntog

seren **ddisglair** brydferth

ysgol **gynradd** Gymraeg

# Treiglo

Bydd ansoddeiriau (ac enwau sy'n disgrifio) yn treiglo'n feddal ar ôl 'yn':

yn dda

yn berffaith

yn gwrtais

yn fanwl

Cofiwch na fydd ll/rh yn treiglo – eithriad:

yn llwyddiannus / yn rhwydd

# Ansoddeiriau

Er bod ansoddair yn dod ar ôl enw yn Gymraeg fel arfer, mae rhai yn cael eu defnyddio o flaen enw:

**prif** ddisgybl

**unig** blentyn

**holl** hyfforddiant

**cryn** effaith

**hen** ddyn

**gwir** ystyr

A oes angen defnyddio unrhyw reol gyda'r ansoddeiriau hyn?

# Treiglo ar ôl ansoddair

Mae **enw** (gwrywaidd neu fenywaidd unigol / lluosog) yn treiglo'n **FEDDAL** ar ôl ansoddair


gwahanol + llyfrau = gwahanol **l**lyfrau

unrhyw + gwers = unrhyw **w**ers

hen + dyn = hen **dd**yn

unig + merch = unig **f**erch

Pa liw het y mae Jac y Do yn ei gwisgo?



Mi welais Jac y do  
Yn eistedd ar ben to  
Het wen am ei ben  
A dwy goes bren  
Yn canu ho-ho-ho!

# Ansoddeiriau benywaidd



**Deilen werdd**

drama + byr = drama **fer**

neges + byr = neges **fer**

merch + tlws = merch **dlos**



**Ffrog felen**



Bord + crwn =

**Y ford gron**



**Seren wen**

afon + dwfn = **afon ddofn**



# Ansoddeiriau lluosog

Ar lan y môr mae rhosys **cochion**

Ar lan y môr mae lilis gwynion...



Ar lan y môr mae cerrig **gleision**;

Ar lan y môr mae blodau'r meibion;



**Mwyar duon**



**Y Crysau  
Duon**

**Gwartheg  
duon**





# Ansoddeiriau - cymharu



# Cymharu Ansoddeiriau

Mae pedair gradd (ffurf) gan ansoddair:

**Cyffredin** – prysur, cryf, mawr ayyb

**Cyfartal** – mae rhywbeth yr un fath â rhwybeth arall (as ..... as)

**Cymharol** – mae rhywbeth yn fwy neu'n llai na rhywbeth arall ( ...er than)

**Eithaf** – un peth yw'r gorau neu'r gwaethaf, y mwyaf neu'r lleiaf (the ...est)

# Cymharu Ansoddeiriau

Sut ydyn ni'n creu'r patrymau hyn yn y Gymraeg?

1. as tall as
2. taller than
3. the tallest

Cyfieithwch:

1. Huw is as tall as Dai.
2. Dai is taller than Jac.
3. Rhys is the tallest.

1. Mae Huw mor dal â Dai.
2. Mae Dai yn dalach na Jac.
3. Rhys yw'r talaf.

# Cymharu Ansoddeiriau

## 1. Cyfartal:

mor gryf â / \*\*\*\* cyn gryfed â \*\*\*\*  
(ffurfiol iawn)

Treiglo: *mor / cyn + TM* ond nid *ll/rh*

Mae James Hook **mor gryf** â Stephen Jones.

Mae'r banana **mor felyn** â'r haul.

Mae Tesco **mor brysur** ag Asda

# Cyfieithwch

*As tall as*

*As strong as*

*As perfect as*

*As successful as*

*As easy as*

*As cheap as*

*As rich as*

# Ansoddeiriau

## 2. Cymharol

terfyniad – **ach** : yn gry**fach** na

Mae James Hook yn gryfach na Stephen Jones.

Mae Angharad yn dalach na Lowri.

Mae fy mlodau i yn bertach na dy flodau di.

# Cymharu Ansoddeiriau

Ond beth am yr ansoddeiriau hyn?

- Ydyn ni' n gallu ychwanegu **–ach** neu **–af** at y rhain?

Rhaid defnyddio' r patrymau hyn;

poblogaidd

diddorol

gofalus

croesawgar

galluog

1. mor boblogaidd â

2. yn fwy poblogaidd na  
yn llai poblogaidd na

3. y mwyaf poblogaidd  
y lleiaf poblogaidd

# Ansoddeiriau hir

**Yn fwy \_\_\_\_\_ na**

yn fwy poblogaidd na

yn fwy doniol na

**Y mwyaf \_\_\_\_\_**

y mwyaf golygus

y mwyaf  
llwyddiannus

**Yn llai \_\_\_\_\_ na**

yn llai poblogaidd na

yn llai doniol na

**Y lleiaf \_\_\_\_\_**

y lleiaf doniol

y lleiaf pwylllog

**X treigladr ar ôl mwy / llai na mwyaf / lleiaf**

# Ansoddeiriau hir - enghreifftiau

Poblogaidd – *Harry Potter* yw'r llyfr mwyaf  
poblogaidd.

Doniol - Dewi yw'r plentyn mwyaf doniol.

Golygus –Russell Crowe yw'r actor mwyaf golygus.

Pwyllog - Mae Angharad yn gyrru'n fwy pwyllog na i  
brawd.

# Cyfieithwch

---

*Stronger than*

*Quieter than*

*Slower than*

*More perfect than*

*Less successful than*

*Funnier than*

# Ansoddeiriau

## 3. Eithaf

y terfyniad – af : y cryfaf, y byrraf

Ken Owens yw'r cryfaf.

Rhys yw'r byrraf.

Rhian yw'r dalaf.

Nia yw'r gryfaf.

y + ffurfiau benywaidd unigol  
= TM

# Cyfieithwch

---

*The strongest*

*The coldest*

*The tallest*

*The warmest*

*The most tasty*

*The funniest*

*The least popular*

-g, -b, -d

Pan fydd ansoddair yn gorffen gyda, g, b, d mae'r llythyren yn newid wrth greu'r ffurf gyfartal, gymharol ac eithaf:

**g** > **c**      **b** > **p**      **d** > **t**

teg, tlawd, gwlyb, drud, rhad, enwog  
yw'r rhai mwyaf cyffredin

-g, -b, -d

## gwlyb

Mae heddiw yn wly**p**ach na ddoe  
Heddiw yw'r gwly**p**af.

## rhad

*The coffee is cheaper than hot chocolate.*

Mae' r coffi yn \_\_\_\_\_ na' r siocled poeth.

## drud

Mae' r gwin yn \_\_\_\_\_ na' r cwrw.

# Ansoddeiriau Afreolaidd

| ansoddair | Cyfartal                           | Cymharol    | Eithaf     |
|-----------|------------------------------------|-------------|------------|
| da        | cystal â                           | yn well na  | y gorau    |
| drwg      | cynddrwg â                         | yn waeth na | y gwaethaf |
| mawr      | cymaint â                          | yn fwy na   | y mwyaf    |
| bach      | <b>Mor fach â</b><br>cyn lleied â  | yn llai na  | y lleiaf   |
| uchel     | <b>Mor uchel â</b><br>cyn uchod â  | yn uwch na  | yr uchaf   |
| isel      | <b>Mor isel â</b><br>cyn ised â    | yn is na    | yr isaf    |
| hawdd     | <b>Mor hawdd â</b><br>cyn hawsed â | yn haws na  | yr hawsaf  |

# Lluniwch frawddegau i gymharu' r gwahanol bethau sydd yn y lluniau

---

## CYMHARU ANSODDEIRIAU

# Ansoddeiriau



# Ansoddeiriau




Pen-y-fan



Yr Wyddfa



# Ansoddeiriau



Huw Edwards



Trevor McDonald

